CANLLAWIAU

# Cefnogi eich plant i ddefnyddio'r Gymraeg gartref

**Sut gall rhieni a gofalwyr gefnogi eu plant i ddefnyddio'r Gymraeg tra bod ysgolion ar gau.**

Rhan o:
Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu: parhad dysgu, Addysg Cymraeg a dwyieithog a Ysgolion: coronafeirws

Cyhoeddwyd gyntaf:
4 Mai 2020

Diweddarwyd ddiwethaf:
4 Mai 2020

Yn ein datganiad polisi Cadw'n Ddiogel. Dal ati i ddysgu, rydym yn ymrwymo i ofalu bod gan ysgolion, lleoliadau a dysgwyr yr un hawl i gymorth, boed drwy'r Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog. Rydym hefyd wedi nodi ein bwriad i ganolbwyntio'n benodol ar ddysgwyr mewn ysgolion a lleoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n byw ar aelwydydd lle na siaredir Cymraeg, ac yn dod o hyd i ffyrdd o gynnal eu cysylltiad â'r iaith.

## Sut gallaf gefnogi fy mhlant os nad wyf yn siarad Cymraeg?

Ein prif neges yw peidiwch poeni os nad ydych yn gallu siarad Cymraeg gyda'ch plant. Mae llawer y gallwch chi ei wneud i helpu eich plant i ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym am sicrhau bod pob dysgwr, waeth beth yw cyfrwng eu haddysg, yn gallu parhau i ddatblygu'u sgiliau a defnyddio'r iaith.

Ar y dudalen hon, mae syniadau am gamau y gallwch eu cymryd a dolenni i ble i fynd am ragor o gefnogaeth a gwybodaeth.

Yr ysgol neu lleoliad fydd eich cyswllt cyntaf o hyd i'ch helpu i sicrhau bod eich plant yn dal ati i ddysgu. Dylent allu eich cefnogi neu eich cynghori ar y ffordd orau o helpu eich plant i gynnal eu sgiliau Cymraeg.

## Camau syml i'w dilyn

Os oes modd i chi annog eich plant i ddefnyddio'r Gymraeg wrth siarad gyda ffrindiau, brodyr a chwiorydd neu aelodau o'r teulu sydd yn gallu siarad Cymraeg, yna bydd yn eu helpu i gynnal eu sgiliau. Wrth gwrs, bydd rhaid i chi sicrhau bod eich plant yn gwneud hyn o fewn y canllawiau ar gyfer cadw pellter cymdeithasol, ond mae dulliau o wneud hyn dros y ffôn neu yn ddigidol.

Gallwch hefyd helpu eich plant trwy eu hannog i ymgymryd â gweithgareddau sydd ar gael trwy wahanol gyfryngau e.e. gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg, lawrlwytho apiau Cymraeg, gwylio rhaglenni Cymraeg ar y teledu, defnyddio cyfryngau cymdeithasol e.e. Facebook a Twitter yn Gymraeg. Y peth pwysig yw bod eich plant yn cael cyswllt â'r iaith a hynny mor aml â phosib.

Mae gwybodaeth bellach a dolenni i syniadau am weithgareddau i blant a phobl ifanc eu gwneud yn Gymraeg ar Hwb.

**Cyhoeddwyd gyntaf**
4 Mai 2020

**Diweddarwyd ddiwethaf**
4 Mai 2020

**Rhan o**
Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu: parhad dysgu
Addysg Cymraeg a dwyieithog
Ysgolion: coronafeirws